

BWRDD CYD LYWODRAETHU

7 MEDI 2022 @ 10:00
AR-LEIN

PRESENNOL:

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid (Cadeirydd)[KJ]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Sian Wyn Jones, Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes[SWJ]
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol[PK]
Sophie Rousseau [SR] (cofnodion)
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau[SP]
James Sutton, Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Ariannol [HW]
Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllid [AM]
TIAA Sarah Davies, Arweinydd JAC ar Foeseg a Llywodraethu [SD]
Jonathan Maddock [JM]

YMDDIHEURIADAU:

Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio[RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Stephen Hughes, Prif Weithredwr[SH]
Helen Cargill, TIAA [HC]
Helen Corcoran, Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol

311. COFNODION

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

312. GWEITHREDIADAU

Gweler y cofnod gweithrediadau am ddiweddariadau.

313. CYFRIFON TERFYNOL 2021/22 – CYFLWYNIAD/ADRODDIAD NARATIF/DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

314. YMDRINIAETH CYFRIFON STATUDOL 2022/23

(Cyfunwyd eitemau agenda fel un eitem)

Diweddariad o'r datganiad cyfrifon ar Archwiliad

Eglurodd GE fod y datganiad cyfrifon i fod i gael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Gorffennaf i ddechrau. Fodd bynnag, oherwydd problemau cyrchu o fewn Archwilio Cymru, daeth yn amlwg na fyddai diwedd mis Gorffennaf yn bosibl. Felly, penderfynwyd newid y dyddiad i weithio tuag ato i

ddyddiad y Cydbwyllgor Archwilio nesaf sef 10 Hydref. Mae cyfarfod wythnosol yn digwydd lle mae cofnod ymholiadau sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ynghylch yr hyn sy'n mynd allan ac a ydyw wedi'i ateb.

Amlygodd GE hefyd fod dau fater sy'n debygol o newid y ffigyrau mewn cyfrifon – un ydy dosbarthu pensiynau lle mae ffigwr mewn cyflog, lle dylai fod fel cyfraniad pensiwn. Mae angen cael ei newid. Yr ail fater ydy yn dilyn derbyn grant am SCCH sawl blwyddyn yn ôl, nid oeddem wedi gwario'r swm llawn o arian. Felly gwnaethom ei glustnodi er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion gyda SCCCH. Oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio, dylid bellach ei roi mewn cronfeydd wrth gefn. Edrychir ar hyn ar hyn o bryd.

Adroddiad naratif – Newidiadau ers y Bwrdd Cyd Lywodraethu diwethaf

Mae sesiwn frifio technegol y CA wedi digwydd.

Amlygodd SP y newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ers y Bwrdd Cyd Lywodraethu diwethaf sydd fel a ganlyn:

1. Sylwebaeth gyffredinol ynghylch adolygiad llywodraethu – mae'n ei wneud yn fwy o adolygiad
2. Diweddiariad ar gyfer canfyddiadau adolygiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd 21-22 (hysbyswyd 22-23)
3. Diweddarwyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol y CA 21-22 (cytunwyd yng Nghydbwyllgor Archwilio mis Gorffennaf)
4. Diweddarwyd er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa arolwg PEEL ddiweddaraf (bydd yr adroddiad ar ôl cyhoeddi)
5. Diweddarwyd er mwyn adlewyrchu sefyllfa a barn archwiliad mewnol TIAA 21-22
6. Cynllun gweithredu wedi'i adlewyrchu er mwyn adlewyrchu cynllun gweithredu fel y Bwrdd Cyd Lywodraethu

Cynllun gweithredu arfaethedig fel Bwrdd Cyd Lywodraethu mis Mehefin 2022

Cyfeiriodd SP at y cynllun gweithredu a welwyd yn y cofnodion o gyfarfod mis Mehefin. Mae hyn wedi'i drosi i dabl ar ddiwedd y Datganiad – mae hyn yn crybwyll yr isod:

- Llywodraethu: Adolygiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd: y gweithrediadau ydy monitro cynnydd yr argymhellion sy'n gysylltiedig gyda'r adroddiad diweddaraf ac yn ail, gwneud adolygiad arall o'n heffeithiolrwydd ar gyfer y flwyddyn i ddod ac ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o ran y broses.

- Eglurder Datganiad Cyfrifon: cydnabuwyd fod agweddau gwahanol yn cael eu cymryd gan wahanol heddluoedd ynghylch y Datganiad ac ystyried ein fformat Datganiad er mwyn sicrhau nad ydym yn colli dim a fydd yn gwella eglurder lefel ein Datganiad ac felly'r datganiad cyfrifon cyffredinol.

- Arolygiadau HMICFRS – adroddiad ym mis Hydref – pan maent yn gwneud, mae angen i ni ystyried unrhyw oblygiadau llywodraethu sydd yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr adroddiad er mwyn mynd ymlaen.

Cytunwyd rhwng KJ, SP a GE y bydd y PG/DD yn cyhoeddi'r cyflwyniad i'r datganiad cyfrifon a'u cymeradwyo. Mae hyn yn dilyn y newid mewn Prif Gwnstabl.

Gweithredu – Bwydo'r cynnig yn ôl i Michelle er mwyn edrych ar gael y cytundeb mewn lle. Rhaid cymeradwyo'r cyfrifon statudol erbyn diwedd mis Gorffennaf er mwyn i'r adran gyllid ganolbwyntio ar y cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Perchennog: Seb Philips/Kate Jackson

315. NEWIDIADAU I'R STRWYTHUR LLYWODRAETHU – COMISIYNU/DATGOMISIYNU CYFARFODYDD

Dim i'w adrodd

316. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Roedd gan AM ddiweddariadau ychwanegol i'w rhoi sydd fel a ganlyn:

Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae wedi derbyn, adolygu a dychwelyd yr archwiliad rheoli cytundebau i TIAA i'w gwblhau – amlygodd AM ei fod yn adroddiad da heb argymhellion. Mae'r adroddiad cydweithredol rheolaethau lliniaru rheoli risg hefyd wedi'i dderbyn, ei adolygu a'i gwblhau.

Argymhellion sy'n Weddill:

- Mae Argymhelliad 8 bellach wedi'i weithredu. Mae'r polisi cwynion ac apeliadau wedi'i gadarnhau a'i lanlwytho i fewnwyd yr heddlu
- Roedd Argymhelliad 13 ar gyfer cyfarfod i ddigwydd gyda'r arweinydd llesiant a'r arweinydd risg a pharhad: cafwyd y cyfarfod hwn ar 3 Awst.

317. ADOLYGIAD O GYHOEDDIADAU A GYHOEDDWDYD GAN ARCHWILIAD MEWNOL

Maent i gyd wedi'u gweithredu a'u cau.

Cododd SP y pwynt o'r themâu a'r patrymau cyffredinol yn y cyhoeddiadau sef twyll a diogelwch seiber. Bydd y themâu hyn yn y cynllunio sefydliadol oherwydd bod galw cynyddol am wasanaethau ynghylch troseddau seiber ac angen cynyddol i ni fod yn fwy cadarn gyda'n diogelwch seiber a'n cadernid ni ein hunain. Oherwydd bod angen mwy o gyrchu yn y maes hwn, gall hyn o bosib arwain at gynnydd mewn prisiau a fydd yn cael eu hamlygu o fewn y cynllunio sefydliadol.

318. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Ystyried trefnu adroddiadau at wraidd y mater o ran risg i'r rhaglen waith a chyrraedd man dealltwriaeth – amlygodd JS ei fod yn gwestiwn i'w ofyn yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn deall y model sut mae'r Cydbwyllgor yn gweithio a sut mae hynny'n rhyngweithio gyda phrosesau Heddlu Gogledd Cymru i'n galluogi ni drosglwyddo gwybodaeth a deall y rôl arweiniol.

Memorandwm cynllunio archwiliad – gofynnwyd yn y CA pan mae'r archwiliad diogelwch seiber yn cael ei wneud, os gall y Memorandwm gael ei anfon a'i fwydo trwodd – Jonathon Maddock am fynd ag o i'w drafod.

Cododd SP y pwynt ynghylch y gweithredu ar gyfer yr archwiliad mewnol sy'n cwestiynu pam ydym yn gohirio; mae angen egluro'r rheswm pam fod yr archwiliad mewnol yn cael ei ohirio a sicrhau bod tryloywder priodol yn ei gylch.

Gweithrediad – Seb i fynd drwy'r gweithrediadau sy'n weddill a sicrhau nad oes dim ar goll er mwyn sicrhau ei fod yn iawn ar gyfer y cyfarfod nesaf.

319. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)

Crybwyllodd SWP y gwaith parhaus gyda gweithredu'r argymhellion o'r prosiect trothwy polisi, sydd bellach bron yn gyflawn. Mae'r mwyafrif o'r polisiâu wedi'u hadolygu neu wedi'u hail-fformatio gyda chanllawiau.

Mae llawer o waith wedi'i wneud ynghylch iechyd galwedigaethol gyda gweithdrefnau gweithredu sefydlog yn y chwarter diwethaf. Mae hyn hefyd bron yn gyflawn.

Mae adolygiad diweddar wedi bod gyda risg sydd wedi arwain at raddio sicrwydd sylweddol. Mae prosesau wedi hen sefydlu bellach.

Mae cynlluniau parhad busnes bellach mewn lle ar gyfer bob maes busnes ac mae profi wedi digwydd.

Mae llawer o waith wedi'i wneud ynghylch yr aflonyddu TG mawr a ddigwyddodd ym mis Mawrth. Mae cynllun aflonyddu mynediad o bell mewn lle ac wedi'i lanlwytho ar wefan SharePoint a chyfres o negeseuon e-bost wedi'u trefnu i fynd allan i staff fel nodyn atgoffa o'r hyn ddylent ei wneud os oes aflonyddu TG mawr.

320. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN

Cytunodd pawb ar y cynllun gwaith ymlaen er mwyn creu'r agenda nesaf.

321. UNRHYW FATER ARALL

Cododd SP y pwysau chwyddiant, dyfarniadau cyflog a chyllid cyffredinol y sefydliad gan ein bod yn mynd i gylch cynllunio blynyddol a chyda llywodraethu o gwmpas y cylch. Er bod yr her yn fwy na'r disgwyl, mae'r prosesau sydd gennym mewn lle o ran ein cynllunio sefydliadol yn addas i'r diben ar gyfer ymdrin â'r pwysau rydym yn ei wynebu o safbwynt chwyddiant a chyflog. Rydym yn meddwl am ddatrysiadau synhwyrol er mwyn sicrhau fod y prosesau'n gadarn ac nid oes rhaid newid pethau.

DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF:

Dydd Mercher 9 Tachwedd 2022

Dydd Mercher 1 Mawrth 2023

Dydd Mercher 28 Mehefin 2023

Dydd Mercher 6 Medi 2023

Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023